Adeiladu Tŷ Bach

Un, dau ac yna tri;
Codi tŷ bach gyda ni.
Pedwar, pump,
Chwech a saith;
Mae'n amser nawr
I ddechrau'r gwaith.

Adeiladu tŷ bach,
Un, dau, tri;
To ar ei ben
A dyna ni.
Sbïo trwy y ffenest,
Be welwn ni?
Llygoden fach yn cysgu...
Ust, da chi!
Llygoden fach yn deffro!
I ffwrdd â hi!

Un, dau ac yna tri;
Codi tŷ bach gyda ni.
Pedwar, pump,
Chwech a saith;
Tŷ bach hardd
A dyna ffaith.

Adeiladu tŷ bach,
Un, dau, tri;
To ar ei ben
A dyna ni.
Sbïo trwy y ffenest,
Be welwn ni?
Llygoden fach yn cysgu...
Ust, da chi!
Llygoden fach yn deffro!
I ffwrdd â hi!

Un, dau ac yna tri;
Codi tŷ bach gyda ni.
Pedwar, pump,
Chwech a saith;
Tŷ bach hardd
A dyna ffaith.

Geiriau: Margaret Lloyd Hughes, Siwan Jobbins